

Julie James

Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg

14 Gorffennaf 2015

Annwyl Julie,

### **Fframwaith ar gyfer buddsoddi ar y cyd mewn sgiliau**

Diolch i chi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Menter a Busnes ar 11 Mehefin i drafod fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer cyd-fuddsoddi mewn sgiliau yng Nghymru. Gwerthfawrogodd Aelodau'r Pwyllgor yr ymatebion manwl a gafwyd gennych yn y sesiwn. Fel y gwyddoch, rydym wedi cynnal dau ddigwyddiad i randdeiliaid roi eu barn ar y fframwaith a lanswyd gennych ym mis Ebrill.

Hoffwn achub ar y cyfle i rannu rhai o'r sylwadau a phryderon a godwyd yn y digwyddiadau. Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn rhoi ymateb i'r Pwyllgor ar y materion a godwyd:

### **Pam mae ei angen**

Cydnabu pawb a gyfranogodd o'r digwyddiadau mai cyfyngedig yw'r posibiliad o ddefnyddio arian cyhoeddus ar gyfer hyfforddiant yn yr hinsawdd economaidd bresennol.



## Cyfathrebu

Mynegwyd pryder nad yw'r polisi newydd wedi cael ei hyrwyddo'n eang. Mae llawer o gyfleoedd hyfforddi a ariennir yn gyfan gwbl gan Gronfeydd Strwythurol efallai na fydd ar gael ar ôl 2020.

Gofynnwyd am ddiffiniad cliriach o 'fuddsoddi ar y cyd'. Er enghraifft, a yw'n cynnwys cyfraniadau 'cyfatebol', megis y gost i fusnes o ryddhau gweithiwr i fynd ar gwrs?

Roedd y cyfranogwyr am wybod sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cyflogwyr yng Nghymru yn ymwybodol o'r newidiadau. A allwch rannu â ni fanylion unrhyw ymgyrchoedd hyrwyddo sydd gennych ar y gweill? Mae Aelodau'r Pwyllgor yn awyddus i helpu i ledaenu'r gair am y newidiadau.

## Canlyniadau anfwriadol posibl

Roedd y sylwadau taeraf o bell ffordd yn ein digwyddiadau ynghylch y pryder y bydd y dull hwn yn arwain at ddarparu llawer llai o brentisiaethau a chyfleoedd hyfforddi eraill yng Nghymru,

a hefyd mai cyflogwyr mwy a fydd yn dwyn y gost ar gyfer hyfforddi. Roedd pryder y bydd cwmnïau llai yn cipio staff hyfforddedig. Cafodd hyn ei grybwyll yng nghyd-destun y diwydiant twristiaeth yn arbennig.

Mae cyflogwyr mewn sectorau lle mae ardollau eisoes, fel y sector adeiladu, yn ofni y gallant fod yn talu dwywaith am fuddsoddi mewn sgiliau.

A oes camau yn cael eu cymryd, wrth gynllunio ar gyfer gweithredu, a fydd yn sicrhau y bydd y buddsoddi sydd ar gael gan y Llywodraeth a chan gyflogwyr yn cynnwys gweithwyr o bob oedran fel y bydd cyfleoedd hyfforddi yn agored i bawb, ni waeth beth fo'u hoedran?

## Gweithredu

Roedd y cyfranogwyr yn pryderu bod yr amserlen ar gyfer gweithredu yn rhy fyr a bod newid diwylliannol mor fawr â hyn yn cael ei gyflwyno heb baratoi digon.

Nid argyhoeddwyd y cyfranogwyr fod digon yn cael ei wneud i sicrhau y cynhelir ansawdd yr hyfforddiant a ddarperir. Mae'r fframwaith yn cyfeirio at ddylanwadu ar ansawdd y buddsoddiad mewn sgiliau. Pa fecanweithiau a fydd yn sicrhau bod ansawdd yr hyfforddiant yn cael ei mesur a'i chynnal?



Erys cwestiynau am natur y buddsoddi o hyn allan – er enghraifft, a fydd Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mwy mewn rhai ardaloedd yng Nghymru nag y bydd mewn eraill? Er enghraifft, clywsom dystiolaeth yng Ngogledd Cymru o brinder sgiliau ar hyn o bryd ar y cyd â marchnad lafur sy'n crebachu. Roedd gan y cyfranogwyr yn ein digwyddiadau bryderon ynghylch sut y bodlonir y galw am lafur medrus ar ôl i brosiectau mawr fel yr Wylfa Newydd ddechrau.

Byddai'n dda cael mwy o fanylion am y cyllid ar gyfer denu cyflogwyr sydd eto heb gymryd rhan yn yr hyfforddiant a phrentisiaethau y soniwyd amdanynt yn y dystiolaeth ar 11 Mehefin. ([para 29, cyfarfod y Pwyllgor Menter a Busnes, 11 Mehefin 2015](#)).

A allwch roi manylion ynghylch a yw arferion gorau Llywodraeth Cymru ar gyfer caffael yn cynnwys hyfforddiant a chymalau cymdeithasol fel gofyniad yn hytrach nag fel arweiniad?

Pa rôl fydd gan Ffederasiwn y Busnesau Bach, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain a'r Siambrau Masnach o ran sicrhau llwyddiant y newid polisi hwn, os bydd rôl ganddynt o gwbl?

Diolch unwaith eto am eich tystiolaeth i'r Pwyllgor. Mae Aelodau'r Pwyllgor yn awyddus i ddilyn y mater hwn a byddant yn argymhell y caiff y Pwyllgor sy'n ymwneud â'r portffolio sgiliau yn y Cynulliad nesaf sesiwn ddiweddar am weithredu'r polisi hwn.

Yr eiddoch yn gywir



William Graham

Cadeirydd, Y Pwyllgor Menter a Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.  
We welcome correspondence in Welsh or English.

